

Dirweddau Hanesyddol

Historic Landscapes



gydag Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru
with the Welsh Archaeological Trusts

*Mae dulliau traddodiadol, fel
plygu gwrychoedd wedi helpu i lunio
cymeriad tirwedd hanesyddol Cymru
(Mick Sharp Photography).*

*Traditional techniques, such as
hedge-laying, help make up the
character of the historic landscape in
Wales (Mick Sharp Photography).*



Press your fingers close on this
lichened sandstone. With this stone
and this grass, with this red earth,
this place was received and made
and remade. Its generations are
distinct but all suddenly present.

Raymond Williams, *People of the Black Mountains*, 1989

*Maer dolydd blodeuog o dan gysgod
Pen-y-Fâl, Powys yn adlewyrchur canrifoedd
o ofalaeth a greodd dirweddau amrywiol
Cymru (Mick Sharp Photography).*

*The flower-rich meadows under the
shadow of Sugar Loaf Mountain,
Powys, testify to the centuries of
stewardship which have created the
variety of landscapes of Wales
(Mick Sharp Photography).*





1

2

3

5

6

7

9

4

8

10

Gwneuthuriad Tirweddau Cymru

Mae ffurf Nant Gwynant, ger Beddgelert yng Ngwynedd, wedi'i llunio gan bobl dros filoedd o flynyddoedd. Drwy nodi'r nodweddion hanesyddol yn y ffotograff hwn gallwn ddechrau deall sut a pham y mae'r tirwedd yn edrych fel ag y mae heddiw; mewn geiriau eraill, pam ei fod yn dirwedd hanesyddol.

- ① Yr Wyddfa — dywedir mai bedd y cawr Rhita Fawr yw'r garnedd ar y copa sy'n dyddio o'r Oes Efydd, sydd yng hedd yn y cymylau yn y llun hwn. Mae llethrau agored yr Wyddfa wedi'u defnyddio i bori defaid ers canrif oedd.
- ② Mae llethrau'r Aran wedi'u britho gan olion yr hen fwynfeydd copr megis y rheini yn Hafod y Porth ac yng Nghwm Bleiddiaid, sy'n cynrychioli gweithgaredd diwydiannol pwysig o'r 17eg ganrif ymlaen.
- ③ Mae Hafod y Porth yn fferm nodwediadol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a adeiladwyd ar doriad y llethr. Mae'r enw Hafod yn dwyn i gof y system hafod a hendref — yr haf a'r gaef — o bori anifeiliaid.
- ④ Mae caeau ar lawr y dyffryn ag iddynt dir pori da wedi'u hamgáu gan waliau cerrig traddodiadol. Diffinir rhannau uwch y 'tir wedi'i wella' gan waliau'r ffridd sydd wedi'u cyfuchlinio o gwmpas llethrau'r bryniau.
- ⑤ Mae Dinas Emrys yn anheddiad canoloesol ag iddo amddiffynfeydd — safle enwog alltudiaeth Gwrtheyrn, lle nodwyd y ddraig goch gyntaf fel symbol i'r Cymry yn y traddodiad llenyddol.
- ⑥ Mae ffordd fodern yr A498 yn dilyn llawr y dyffryn a bellach mae'n llwybr pwysig ar draws Eryri o'r dwyrain i'r gorllewin.
- ⑦ Mae afon Glaslyn, sydd â'i chwrs wedi'i rheoli mewn mannau gan gamlesi, wedi gwasanaethu anghenion domestig a diwydiannol.
- ⑧ Cloddiwyd copr yn helaeth ym mwynfeydd copr Sygun o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen yn bennaf ond mae'n bosibl iddynt ddyddio o'r cyfnod Rhufeinig. Mae'r tomenni gwastraff wedi'u tirlunio ac mae'r mwynfeydd bellach yn atyniad twristiaeth i'r unfed ganrif ar hugain.
- ⑨ Datblygyd Neuadd Craflwyn a'i pharcdir yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg o fferm denantiaeth i gartref bonedd. Maent bellach yn cael eu hadfer fel canolfan i wirfoddolwyr a phrosiect hanes byw.
- ⑩ Cyflwynwyd *rhododendron ponticum* yn wreiddiol fel rhywogaeth addurniadol i Graflwyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond mae bellach wedi lledaenu i'r gwyllt ac i'w weld yn drwch mewn rhannau helaeth o Nant Gwynant.

The making of Welsh landscapes

The appearance of Nantgwynant, near Beddgelert, in Gwynedd, has been shaped by people over thousands of years. By identifying historic features in this photograph, we can begin to understand how and why the landscape looks as it does today; in other words, why it is a historic landscape.

- ① Snowdon (Yr Wyddfa) — the Bronze Age cairn on the summit, here hidden in the clouds, is said to be the grave of the giant Rhita Fawr. The open slopes on Snowdon have been used for sheep-grazing for many centuries.
- ② The slopes of Yr Aran are dotted with the remains of former copper mines, such as those at Hafod y Porth and in Cwm Bleiddiaid, representing important industrial activity from the seventeenth century onwards.
- ③ Hafod y Porth is a typical nineteenth-century farm built at the break of slope. The name 'Hafod' recalls the *hafod* and *hendre* — summer and winter — system of pasturing animals.
- ④ Fields on the valley floor contain good pasture and have been enclosed using traditional drystone walling. The upper reaches of the improved land are defined by the *ffridd* (moorland) walls contoured around the hill slopes.
- ⑤ Dinas Emrys is an early medieval defended settlement — the legendary site of Vortigern's banishment — where the red dragon was first identified in literary tradition as the symbol of the Welsh people.
- ⑥ The modern A498 follows the valley floor and is today an important east–west route across Snowdonia.
- ⑦ The Afon Glaslyn, its course now regulated in parts by canalization, served both domestic and industrial needs.
- ⑧ Sygun copper mines were exploited principally from the nineteenth century but may date back to Roman times. The waste dumps have been landscaped and the mines are now a twenty-first-century tourist attraction.
- ⑨ Craflwyn Hall and parklands were developed in the nineteenth century from a tenanted farm to a gentleman's residence. They are now being restored as a volunteer centre and living history project.
- ⑩ *Rhododendron ponticum* was originally introduced as an ornamental species to Craflwyn in the nineteenth century, but has subsequently spread into the wild and has colonized large extents of Nantgwynant.

Gofalu am Dirweddau Hanesyddol Caring for Historic Landscapes



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

gydag Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru
with the Welsh Archaeological Trusts



gydag Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru
with the Welsh Archaeological Trusts

Cadw
Llywodraeth Cynulliad Cymru/
Welsh Assembly Government
Plas Carew
Uned/Unit 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd/Cardiff
CF15 7QQ

Ffon: /Telephone: 01443 33 6000
Ffacs: /Fax: 01443 33 6001

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw 2003.
First published by Cadw 2003.
Ailargraffwyd/Reprinted 2007.

ISBN 978 1 85760 247 0
Hawlfraint y Goron/Crown Copyright 2007.

Llun Clawr: Llyn Syfaddan, Powys.
Cover photograph: Llangorse Lake, Powys.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau gwahanol. Am fanylion cysylltwch
â Cadw yn y cyfeiriad uchod neu ffoniwch 01443 33 6000

This publication is available in alternative formats. For details please contact
Cadw at the address above or telephone 01443 33 6000


Gofalu am Dirweddau Hanesyddol

Caring for Historic Landscapes

Dychmygwch mai dim ond un ddalen o bapur sydd gennych ac ar y ddalen honno mae'n rhaid i chi ysgrifennu popeth. Rhaid i chi ei hailddefnyddio dro ar ôl tro gan ddileu rhai geiriau bob tro er mwyn ychwanegu gwybodaeth newydd. Yn y diwedd yr hyn sydd gennych yw cymsgedd o linellau sy'n gysylltiedig ag adegau gwahanol a defnydd gwahanol: bydd rhai o'r geiriau yn gwneud synnwyd ond bydd ystyr eraill yn ddarniog. Dyna'n union a welir yn ein tirwedd heddiw. Un tirwedd ydyw ond oherwydd iddo brofi newidiadau parhaus ers dros 10,000 o flynyddoedd a'i fod yn dangos ôl y defnydd a'r aildefnydd a wnaed ohono yn y gorffennol, tirwedd hanesyddol ydyw hefyd.

Gwelir mwy na 2,000 o flynyddoedd o ddefnydd ac aildefnydd yn y tirwedd o amgylch Trawsfynydd, Gwynedd: mae castell mwnt Normanaidd wedi'i godi ar safle caer Rufeinig a thu hwnt iddo gwelir llyn artiffisial a grëwyd yn yr ugeinfed ganrif (Hawlfraint y Goron: CBHC).

Imagine that you have just one sheet of paper on which to write everything. You have to reuse it time and time again, rubbing out some words each time in order to add new information. Eventually you end up with a mixture of lines relating to different times and uses: some of the writing will make sense, but some will be fragmentary. Our present landscape is like that. It is a single landscape but, because it has continually undergone change for around 10,000 years and bears the traces of past use and reuse, it is also historic.



More than 2,000 years of use and reuse are preserved in the landscape around Trawsfynydd, Gwynedd: a Roman fort is overlain by a Norman castle mound and beyond lies a twentieth-century artificial lake (Crown copyright: RCAHMW).

Mae Cymru yn enwog am harddwch ei golygfeydd, ei diwylliant a'i hanes. Mae'r holl elfennau hyn yn dod ynghyd yn ei thirweddau amrywiol a werthfawrogir yn fawr gan ymwelwyr o bedwar ban byd yn ogystal â thrigolion Cymru ei hun. Mae ymron i bopeth a welwn yn ein tirwedd heddiw yn deillio o ganriffoedd o weithgareddau gan bobl – ffermio, chwarela, teithio a masnach, ac angen economaidd ac ysbrydol. Mae'r mannau lle'r ydym yn byw ac yn gweithio, yn mynd i'r ysgol ac yn addoli â'u gwreiddiau oll yn y gorffennol: mae ganddynt straeon i'w hadrodd, pe wyddem sut i'w darllen.

Ers tro bu Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) a'r pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth ar sawl project sydd â'r nod o wella ein dealltwriaeth o dirwedd hanesyddol Cymru, ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol. Diben y llyfrynn hwn yw disgrifio'r gwaith hwn: egluro pwysigrwydd a gwerth cyffredinol y tirwedd hanesyddol yng Nghymru; a chynnig gwybodaeth i'r rheini sydd am wybod mwy am yr agwedd hon ar ein gorffennol cyfoethog ac amrywiol.



Wales is renowned for its scenic beauty, its culture and its history. All of these come together in its many and varied landscapes which are highly valued not only by the people of Wales but also by the country's many visitors from all over the world. Practically everything we can see in our present landscape is the result of centuries of human activities, of farming, quarrying, travelling and trade, of economic and spiritual need. The places where we live and work, go to school and worship are literally rooted in the past: they have stories to tell, if we know how to read them.


Cadw, the Countryside Council for Wales (CCW) and the four Welsh Archaeological Trusts have for some time been working in partnership on several projects which are aimed at improving our understanding of the historic landscape of Wales, at both the national and local levels. The purpose of this booklet is to describe this work; explain the overall importance and value of the historic landscape in Wales; and interest all those who wish to know more about this aspect of our rich and varied past.

Landscape means an area, as perceived by people, whose character is the result of the action and interaction of natural and/or human factors.

European Landscape Convention, Council of Europe (2000)

Mae'r dulliau o astudio cymdeithasau yn y gorffennol wedi newid: arferai archaeolegwyr ganolbwntio ar astudiaethau manwl o henebion unigol, fel siambr gladdu Pentre Ifan, Sir Benfro (chwif), ond bellach yr arfer yw ystyried tirweddau cyfan fel dyffryn Ewas, Sir Fynwy (gyferbyn) (Mick Sharp Photography).

Approaches to studying past societies have changed: archaeologists used to concentrate on detailed studies of individual monuments, such as Pentre Ifan burial chamber, Pembrokeshire (left), whereas current thinking embraces whole landscapes such as the Ewyas valley, Monmouthshire (opposite) (Mick Sharp Photography).



Tirweddau hanesyddol Cymru

Hanes yw'r broses o astudio newid a pharhad ac un o'r dogfennau hanesyddol pwysicaf sydd ar gael i ni yw'n tirwedd: yn wir, o safbwyt y rhan fwyaf o'n hanes, dyma'r unig ddogfen sydd gennym, ac mae gan archaeolegwyr y dulliau sydd eu hangen i'w darllen.

Mae'r tirwedd heddiw yn cynnig cipolwg ar y gorffennol drwy roi syniad i ni o'r ffordd yr oedd pobl yn byw a'r modd y defnyddiwyd y tir ar hyd yr oesoedd. Mae'n gyfuniad o lefydd ac o fannau gwag – mannau lle y bu i bethau ddigwydd (mannau claddu, aneddiadau, caerweithiau) a'r mannau hynny rhwngdynt a dramwywyd. Drwy gyfuno'r holl elfennau hyn, mae'n bosibl deall datblygiad y tirwedd, gyfnod wrth gyfnod.

Mae'r llu o nodweddion sy'n ffurfio'r tirwedd hanesyddol yn deillio o weithgareddau'r bobl a fu'n defnyddio ac yn ffurfio'r tir at eu dibenion; maent yn adlewyrchu credoau, agweddu, traddodiadau a gwerthoedd y bobl hyn. Maent yn cynnwys olion corfforol yr holl agweddu ar weithgareddau a'r defnydd a wnaed o'r tir gan bobl yn y gorffennol (ar yr wyneb a thanddaear) ynghyd â'n dealltwriaeth a'n dehongliad ni o'r olion hynny.

Historic landscapes of Wales

History is the study of change and continuity, and one of the most important historical documents we have available to us is our present landscape: indeed, for most of our history it is the only document we have, and archaeologists have the tools necessary to read it.

Today's landscape offers windows on the past by allowing us a glimpse into how people lived and used the land through time. It is a combination of place and space – places where things happened (burials, settlements, fortifications) and the spaces in between through which people moved. By bringing all these elements together, it is possible to understand the development of the landscape, period by period.

The myriad features that make up the historic landscape are the result of the activities of the people who used and shaped the land to serve their needs in the past; they reflect the beliefs, attitudes, traditions and values of these people. They include the physical remains of all aspects of human activities and exploitation in the past (above and below ground), and our understanding and interpretation of those remains.



Yn yr un modd ag y mae'r tirwedd wedi newid gydag amser, felly hefyd ein hamgyffrediad ohono. Mae golygfa Paul Sandby o Castell Dolbadarn, Gwynedd, a baentiwyd ym 1764 yn gorwysleisio'r tirwedd er mwyn amlygu'r golygfeydd mynyddig garw. Cyn hynny byddai amgyffrediad pobl o'r tirwedd hwn yn ei weld fel anialdir (Birmingham Museum and Art Gallery).

Not only has the landscape itself changed over time but so too has our perception of it. Paul Sandby's view of Dolbadarn Castle, Gwynedd, painted in 1764, exaggerates the landscape to celebrate the rugged mountain scenery. Earlier perceptions of this landscape would have seen it as wasteland (Birmingham Museum and Art Gallery).

Mewn gwrthgyferbyniad i lun Sandby (gyferbyn), mae'r ffotograff modern hwn a dynnwyd o'r awyr o Flaenafon yn gofnod gwrthrychol a 'chywir' o dirwedd diwydiannol dramatig, sef safle sydd bellach wedi'i gofrestru'n Safle Treftadaeth y Byd (Hawlfraint y Goron: CBHC)

In contrast to the Sandby picture (opposite), this modern aerial photograph of Blaenavon is a dispassionate and 'accurate' record of a dramatic industrial landscape, now valued as a World Heritage Site (Crown copyright: RCAHMW).



Wrth i ni edrych ar yr hanes hwn a'r modd y mae'n rhan o wead y tirwedd presennol, daw'r gorffennol yn fyw: fel sy'n wir am y presennol, mae'n gyson gyfnewidiol wrth i ni ddarganfod mwy a'i ddeall yn well.

Yn ogystal â'r tirwedd ei hun, mae'n hamgyffrediad a'n gwerthfawrogiad wedi newid dros amser hefyd. Er enghraifft, cyn diwedd y ddeunawfed ganrif ystyriwyd bod ardaloedd mynyddig Cymru yn dir diffaith o'u cymharu â'r iseldir bras a chynhyrchiol. Ond o ddiwedd y ddeunawfed ganrif ymlaen roedd Cymru yn enwog am ei golygfeydd mynyddig gwylt a ddenai lu o ymwelwyr. Yn yr un modd, ddwy ganrif yn ddiweddarach yn y 1970au, trawsnewidiwyd y tirwedd diwydiannol yng Nghymru, gyda thomenni glo yn cael eu chwalu ymaith; eto, yn ddiweddar penodwyd y tirwedd diwydiannol ym Mlaenafon yn Safle Treftadaeth y Byd.

When we look at this history and how it is entwined in the fabric of the present landscape, the past becomes a dynamic place: like the present, it is always changing as we discover more and understand it better.

Not only has the landscape itself changed over time, but so too has our perception and appreciation of it. For instance, before the late eighteenth century the mountainous areas of Wales were viewed as wasteland when compared with the rich and productive lowlands. But from the late eighteenth century onwards it was for its wild, rugged, mountainous scenery that Wales became famous and much visited. Similarly, two centuries on, in the 1970s, much of the industrial landscape of Wales was transformed, with former coal tips being swept away; and yet recently the industrial landscape at Blaenavon was designated a World Heritage Site.

Y modd y crëwyd ein tirweddau gan gymdeithas ar hyd yr oesoedd

Pobl Cynhanesyddol

Dechreuwyd clirio'r tir ar raddfa fach tua diwedd y cyfnod Mesolithig (oddeutu 6000 i 3500 CC), gydag aneddiadau tymhorol yn cael eu sefydlu. Fodd bynnag, dechreuodd pobl adael eu hól ar y tirwedd yn sgil cyflwyno ffermio yn y cyfnod Neolithig (oddeutu 3500 i 2000 CC). Datblygodd yr ardaloedd a gliriwyd yn y coetir i fannau holol agored gydag aneddiadau, ffaldiau a chaeau, ac erbyn diwedd y cyfnod cynhanesyddol, ryw ddwy fil a hanner o flynyddoedd yn ôl, roedd y tirwedd yn cael ei ddefnyddio at ryw ddiben neu'i gilydd, boed yn dir pori, yn dir âr neu'n goetir fel bod ei wedd naturiol wedi'i newid am byth.

Heddiw, mae rhannau helaeth o'r mynydd-dir, er enghraift yn Arddudwy ac ar hyd arfordir y Gogledd, yn frith o olion adfeiliadol tai crwn a godwyd o gerrig, terfynau caeau a thraciau, gan roi syniad i ni o'r modd y byddai'r tirwedd wedi edrych yn y cyfnod hwn, yngyd â'r modd yr oedd gweithgareddau dynol wedi effeithio arno. Mewn mannau eraill yng Nghymru, lle'r arferid defnyddio pren ar gyfer adeiladau a strwythurau eraill, cafwyd dystiolaeth o'r modd y byddai'r tirwedd wedi edrych o ffotograffau o'r awyr, arolygon geofisegol a gwaith cloddio archaeolegol.

Mentrau diweddar i nodi tirweddau hanesyddol

Ym 1998 a 2001, fel cam cyntaf tuag at godi proffil tirweddau hanesyddol yng Nghymru, cyhoeddodd Cadw, CCGC ac ICOMOS (y DU) (Y Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd) Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru, mewn dwy gyfrol. Mae'r ddogfen ymgynghorol ac anstatudol hon yn amlygu'r hyn a dybir yw'r enghreifftiau gorau o wahanol fathau o dirweddau hanesyddol yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'r detholiad o ardaloedd ar gyfer y Gofrestr hon yn lleihau pwysigrwydd gweddill tirwedd cyfoethog hanesyddol Cymru.

Mae'r canllaw arfer da yn esbonio sut y dylid defnyddio'r Gofrestr wrth asesu effaith datblygiadau mawr ar y tirwedd hanesyddol (gweler y tu mewn i'r clawr cefn am fanylion).

How past societies created our landscapes

Prehistoric people

The first small-scale land clearance took place in the later Mesolithic period (from around 6000 to 3500 BC), with seasonal settlements being established. However, it was the introduction of farming in the Neolithic period (from around 3500 to 2000 BC) that led to the first significant human impact on the landscape. Woodland clearings evolved into extensive open spaces containing settlements, stock pens and fields, and by the late prehistoric period, some 2,500 years ago, most of the landscape was being exploited in one way or another, as pasture, arable or woodland, and its natural appearance had changed forever.

Today, large areas of the uplands, for example in Arddudwy and along the north Wales coast, contain remarkably rich and extensive stone-built remains of circular houses, field boundaries and trackways, giving us an idea of how the landscape would have appeared at this time, and the already widespread extent of human impact on it. Elsewhere in Wales, where the use of timber for buildings and other structures was more commonplace, evidence of how the landscape looked has been obtained from aerial photography, geophysical survey and archaeological excavation.

Recent initiatives to identify historic landscapes


In 1998 and 2001, as a first step towards raising the profile of historic landscapes in Wales, Cadw, CCW and ICOMOS (UK)(International Council on Monuments and Sites) published the two-volume Register of Landscapes of Historic Interest in Wales. This advisory and non-statutory document highlights what are considered to be the best examples of different types of historic landscape in Wales. However, the selection of areas for this Register does not reduce the importance of the rest of Wales's rich historic landscape.

A good practice guide explains how the Register should be used in assessing the effect of major developments on the historic landscape (see inside back cover for details).




Mae llu o olion sy'n dyddio o'r cyfnod cynhanesyddol i'w cael ym mynydd-dir Cymru. Yn Arddudwy, Gwynedd (chwith), mae waliau'r caeau a phatrymau tirwedd amaethyddol yn aml wedi parhau'n ddigfnewid ers dros ddwy fil o flynyddoedd. (Hawlfraint y Goron: CBHC). Yng Ngharn Bica, ar Fynydd Preseli, Sir Benfro (isod) mae safle defodol Beddarthur, sy'n dyddio o gyfnod cynharach fyth, yn goroesi ymron yn gyfan ar rostir agored (©CCGC Jeremy Moore).

The uplands of Wales are particularly rich in remains dating from the prehistoric period. In Arddudwy, Gwynedd (left), the field walls and patterns of the agricultural landscape have often remained unchanged for over 2,000 years (Crown copyright: RCAHMW). At Carn Bica on Mynydd Preseli, Pembrokeshire (below) the Beddarthur ritual site from an even earlier period survives almost intact in open moorland (© CCW Jeremy Moore).



Dwy gyfrol y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru a gyhoeddwyd ym 1998 a 2001.



The two volumes of the Register of Landscapes of Historic Interest in Wales, published in 1998 and 2001.



Y Rhufeiniaid

Gadawodd y Rhufeiniaid a feddiannai'r wlad o'r ganrif gyntaf i'r bedwaredd ganrif OC, eu hól ar y tirwedd. Roedd hyn i'w weld amlycaf mewn rhwydwaith o gaerau milwrol a gysylltwyd gan ffyrrd o wneuthuriad da. Ni cheir cymaint o dystiolaeth o aneddiadau dinesig a gynnuniwyd yn y cyfnod Rhufeinig, er y canfuwyd sawl safle pwysig, yn enwedig yn ne-ddwyrain Cymru. Mewn ardaloedd eraill ceir dystiolaeth archaeolegol sy'n awgrymu i'r patrwm o aneddiadau a chaeau a fu mewn bodolaeth ers y cyfnod cynhanesyddol barhau i gael ei ddefnyddio.

Cyfnod y Cristnogion Cynnar

Ceir cipolwg cyffrous ar y modd yr oedd y tirwedd yn datblygu yng nghyfnod y Cristnogion Cynnar (rhwng y pumed ganrif a'r unfed ganrif ar ddeg) drwy gyfrwng yr henebion crefyddol, megis y meinï arysgrifiedig, mynwentydd a safleoedd eglwysi. Ni adawodd y Llychlynwyr ychwaith, yn y nawfed ganrif a'r ddegfed ganrif, lawer o dystiolaeth weledol o'u presenoldeb ar y tirwedd ar wahân i gerfiadau eglwysig, nifer o safleoedd arfordirol a chyfres o enwau lleoedd (megis 'Orme' yn 'Great Orme').

Y Normaniaid

Yn yr unfed ganrif ar ddeg a'r ddeuddegfed ganrif, cafodd y Normaniaid, drwy eu cyswllt â'r tywysogion Cymreig, gryn effaith ar dirweddau Cymru, ac mae olion gweledol dros bedwar cant o gestyll pren a phridd a charreg yn parhau hyd heddiw. Datblygodd trefi o amgylch rhai o'r cestyll hyn, fel Trefynwy, tra bod eraill bellach yn sefyll mewn caeau gwag, fel Hen Domen ger Trefaldwyn. Ar yr un adeg, arweiniodd y broses o gyflwyno traddodiadau âr (a chymdeithasol yn ôl pob tebyg) gwahanol at yr hyn a elwir yn 'gyfundrefnau caeau agored' ac mae ychydig ohonynt i'w gweld hyd heddiw yn y tirwedd.

O'r ddeuddegfed ganrif ymlaen trosglwyddwyd rhannau helaeth o Gymru i'r mynachlogydd Sistersaidd, fel Ystrad Fflur, gan dirfeddianwyr lleol. Drwy sefydlu eu ffermydd, bu i'r Sistersiaid yn eu tro, aillfurfi'r tirwedd, yn enwedig yn y tiroedd ymylol, gan glirio coetir, draenio corsydd, adfer tir diffaith a datblygu ffermio defaid.

The Romans

The Romans, who occupied the country from the first to the fourth centuries AD, left their imprint on the landscape, most obviously in a network of military forts linked by well-engineered roads. Evidence for planned civil settlement in the Roman period is less plentiful, although several important sites have been found, particularly in south-east Wales. Elsewhere, archaeological evidence suggests that the pattern of settlements and fields continued in use from the prehistoric period.

The Early Christian period

Tantalizing glimpses of how the landscape was developing in the Early Christian period (between the fifth and eleventh centuries) are provided mainly by the survival of religious monuments, such as inscribed stones, cemeteries and the sites of churches. Nor did the Vikings, in the ninth and tenth centuries, leave much visible evidence of their presence in the landscape, beyond some ecclesiastical carvings, several coastal sites and a series of place-names (such as 'Orme' in Great Orme).

The Normans

In the eleventh and twelfth centuries, the Normans, interacting with the native Welsh rulers, had a profound impact on the landscapes of Wales, which still contain the visible remains of over four hundred timber-and-earth and stone castles. Towns developed around some of these castles, such as Monmouth, while others, such as Hen Domen, near Montgomery, now stand in empty fields. At the same time, the introduction of different arable (and probably social) traditions led to what are termed 'open-field systems', a few of which are still evident in the landscape.

From the twelfth century onwards, large tracts of Wales were granted by local landowners to the great Cistercian monasteries, such as Strata Florida. Through the establishment of their farms, known as granges, the Cistercians, in their turn, reshaped the landscape, particularly in marginal areas, clearing woodland, draining marshes, reclaiming waste and developing sheep-farming.

Menter nodweddau tirweddau hanesyddol

Mae'r astudiaeth wreiddiol o dirwedd Cymru ar gyfer y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru bellach wedi'i hehangu'n fenter arall sy'n cynnwys Cadw, CCW a'r pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol yng Nghymru. Mae'r fenter wedi dechrau drwy edrych yn fanylach ar nodweddion pob un o'r hanner cant ag wyth o dirweddau ar y Gofrestr. Staff arbenigol ym mhob un o'r pedair Ymddiriedolaeth sy'n ymgymryd â'r astudiaethau manwl o nodweddau tirweddau hanesyddol ac mae'r canlyniadau wedi ychwanegu'n sylweddol at ein dealltwriaeth wreiddiol o'r datblygiadau hanesyddol yn yr ardaloedd hyn.

The historic landscape characterization project

The initial study of the Welsh landscape for the Register of Landscapes of Historic Interest in Wales has now been broadened into another initiative, involving Cadw, CCW and the four Welsh Archaeological Trusts. The initiative has started by looking in more detail at the character of each of the fifty-eight landscapes on the Register. These detailed historic landscape characterization studies are being undertaken by specialist staff in each of the four Trusts and the results have greatly enhanced our previous understanding of the historical development of these areas.



Mae lleiniau'r gyfundrefn gaeau agored ganoloesol, a adwaenir fel y Vile, yn goroesi wedi'u ffosileiddio o dan derfynau diweddarach yn Rhossili ym Mhenrhyn Gŵyr (Hawlfraint y Goron: CBHC).

The strips of a medieval open-field system, known as the Vile, survive fossilized below later boundaries at Rhossili on the Gower peninsula (Crown copyright: RCAHMW).

Trefi Canoloesol

Hyd at y ddeuddegfed ganrif bu rhan fwyaf o boblogaeth Cymru yn byw mewn tyddynnod ar wasgar ar hyd y wlad, yn hytrach na mewn pentrefi neu drefi, ond yn ystod y ddwy ganrif nesaf daeth aneddiadau rheolaidd, trefnus y cyfnod Normanoid, megis Tredeml, Sir Benfro, a threfi bwrdeistrefol mawr oes Edward yng ngogledd Cymru, megis Conwy a Chaernarfon, yn ychwanegiadau dylanwadol newydd i'r tirwedd Cymreig.

Yn ddiweddarach rhwng y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r unfed ganrif ar bymtheg, arweiniodd newidiadau yn y boblogaeth a'r economi (yn rhannol yn sgil y pla) at leihad ym maint rhai trefi, gadawyd rhai yn anghyfannedd hyd yn oed, ac yn iseldiroedd y de yn arbennig mae nifer o'r rhain wedi gadael ôl amlwg ar y tirwedd.

Medieval Towns

Up until the twelfth century, most of the population of Wales had lived in farmsteads scattered across the countryside, rather than in villages or towns, but during the next couple of centuries the regular, laid-out settlements of the Norman period, such as Templeton, Pembrokeshire, and the great Edwardian borough towns of north Wales, such as Conwy and Caernarfon, became imposing new additions to the Welsh landscape.

Later, between the fourteenth and sixteenth centuries, changes in the population and economy (partly caused by plague) led to the contraction and even desertion of some towns, and in the lowlands of the south in particular many of these have left a distinctive impression on the landscape.



Adlewyrchir tarddiad y Bala, Gwynedd, fel bwrdeistref ymsefydledig Seisnig a ddyddiai o ddechraur bedwaredd ganrif ar ddeg ym mhatriwm rheolaidd sŵgâr ei strydoedd (Hawlfraint y Goron: CBHC).

The origin of Bala, Gwynedd, as a planted English borough of the early fourteenth century is reflected in the regular grid-iron pattern of its streets (Crown copyright: RCAHMW).

Beth yw nodweddu tirweddau hanesyddol?

Mae nodweddu tirweddau hanesyddol yn fod o ddiffinio, mapio a chofnodi tystiolaeth gweithgaredd pobl y gorffennol ar y tirwedd presennol. Mae'n edrych ar y tirwedd cyfan, nid ar safleoedd neu henebion unigol yn unig, ond ar y patrymau a'r mannau agored ehangach rhngddynt hefyd. Mae'n gymorth i ganolbwytio ar y modd y mae olion corfforol gweithgareddau dynol yn y gorffennol yn sail i'r nodweddion amlwg a'r amrywiaeth a werthfawrogwn yn ein tirwedd heddiw. Mae'n broses sy'n dangos bod gan bob man ei hanes arbennig ac unigryw.

Mae'n cydnabod bod nodweddion cyffredin a nodwediadol — pwysigrwydd lleol — yr un mor werthfawr â nodweddion prin ac arbennig — pwysigrwydd cenedlaethol.

Mae nodweddu yn digwydd ar ddwy lefel wahanol — patrwm a manylion. Fe'u defnyddir ar y cyd i nodi cymeriad hanesyddol. Mae'r broses nodweddu yn rhannu pob ardal astudiaeth — boed yn ardal ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru neu'n sir — lle y caiff nifer o ardaloedd daearyddol llai, sydd fwy neu lai o gymeriad hanesyddol cyson, eu diffinio a'u mapio.

Er enghraifft, gallai ardal gael ei nodweddu gan ffurf arbennig ar anheddiad hanesyddol neu batrwm o ddefnydd tir, neu hwyrach y byddai ganddi adeiladau hanesyddol amlwg, safleoedd archaeolegol neu ffiniau caeau traddodiadol, neu hwyrach y byddai ganddi gynefinoedd hynafol pwysig neu gyswilt hanesyddol o bwys â phobl neu ddigwyddiadau adnabyddus.

Mae manylion technegau adeiladu hefyd yn bwysig wrth ddiffinio nodweddion penodol lleol a chreu 'ymdeimlad am fro': gallai hyn gael ei adlewyrchu mewn arddull adeiladu gwahanol, neu yn y defnydd o ddeunyddiau sydd ar gael yn lleol (gwenithfaen, briciau neu fframiau pren) neu addurniadau sy'n defnyddio arddulliau a nodweddion mympwyol.

What is historic landscape characterization?

Historic landscape characterization is a means of defining, mapping and recording the evidence of past human activity in the present landscape. It looks at the whole of the landscape, not just individual sites or monuments but also the larger patterns and spaces in between. It helps to tie down the way in which the physical remains of past human activities underpin the distinctiveness and diversity which we value in our present-day landscapes. It is a process which demonstrates that everywhere has a history and is special – and unique.

It recognizes that the typical and commonplace — of local importance — are as valuable as the rare and special — of national importance.

Characterization takes place at two different levels — pattern and detail. These are used in combination to identify historic character. The characterization process divides each study area — whether it be an area on the Register of Landscapes of Historic Interest in Wales or a county — into a number of smaller geographical areas of broadly consistent historic character which are defined and mapped.

For example, an area might be characterized by a particular form of historic settlement or land-use pattern, or it might have distinctive historic buildings, archaeological sites or traditional field boundaries, or it might contain important ancient habitats or have significant historic associations with famous people or events.

The detail of building construction techniques is also important in defining local distinctiveness and creating a sense of place: this might be reflected in a different building style, or in the use of locally-available materials (granite, brick or timber-framing) or embellishments using unusual styles and features.

...This country of Wales is excessively grand; rocks piled on each other to tremendous heights, rivers formed into cataracts by their projections and valleys clothed with woods, present an appearance of enchantment...

Percy Bysshe Shelley (1792–1822), on his first visit to Wales

Ystadau mawr

O ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg ymlaen, rhoddodd tirfeddianwyr cyfoethog yr ystadau o'u hamser a'u harian i arddangos eu statws drwy gyfrwng y tirwedd, gan greu tirweddau addurnedig ffurfiol ac anffurfiol (yn dibynnu ar yr arfer gyfredol) er mwyn creu argraff ar gyfeillion ac ymwelwyr. Mae llawer o'r cynlluniau hyn, sy'n cynnwys gerddi llyisiau â waliau o'u cwmpas a thai gwydr, lloriau a pharcdirroedd yn bodoli hyd heddiw, er enghraift yng Nghastell y Waun.

O ddiwedd y ddeunawfed ganrif, aeth tirfeddianwyr blaengar ati, gan ddefnyddio cyfalaf o fentrau diwydiannol a masnachu ffyniannus, i ad-drefnu eu hystadau yn economaidd ac yn ffisegol. Ar yr un pryd, amgawyd miloedd o erwau o dir a sêl bendith seneddol er budd y tirfeddianwyr cyfoethog. Cafodd hyn effaith ddwys ar y tirwedd, ac o'r cyfnod hwn ymlaen deilliau'r patrwm rheolaidd o gaeau a llwybrau, cynlluniau adfer a draenio tir helaeth, coetiroedd wedi'u plannu a gweliannau, ac adeiladu fferm sy'n nodweddiaadol o nifer o rannau o Gymru. Cofnodwyd cryn dipyn o'r gwaith hwn a chyfoethogwyd ein dealltwriaeth o'r newidiadau hyn yn fawr gan fapiau'r ystadau ac arolygon a chofnodi tir eraill.

Trafnidiaeth

Mae trafnidiaeth wedi cael effaith gynyddol ar y tirwedd, yn enwedig yn y tair canrif ddiwethaf. Mewn rhai rhannau o Gymru gwelir llwybrau a lonydd nodweddiaadol droellog ac mae hyn yn dynodi tarddiad canoloesol os nad cynhane syddol, ond mae llinellau syth y ffyrd tyrpeg sy'n dyddio o ddiwedd y ddeunawfed ganrif/dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn hawdd i'w gweld yn y tirwedd. O ddiwedd y ddeunawfed ganrif roedd tramffyrrd a chamlesi yn cael eu hadeiladu i wasanaethu gofynion cynyddol cymoedd diwydiannol de Cymru, ac yn yr un modd cai rheilffyrdd niferus eu hadeiladu yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg er mwyn gwasanaethu'r chwareli, y pyllau glo a'r gweithfeydd haearn. Mae'r rhain eu hunain wedi diffinio tirweddau eithaf hynod mewn sawl man hefyd.

Ar yr arfordir, arweiniodd yr angen i allforio nwyddau, i bysgota, i ddiogelu llongau ar y môr ac i amddiffyn y tir rhag ymosodiadau, at y tirweddau arfordirol hynod, sy'n cynnwys porthladdoedd, dociau, goleudai a harbyrau, yn ogystal â meysydd awyr, a'r gyfres ryfeddol o gaerydd sy'n dyddio

Large estates

From the late seventeenth century onwards, rich estate owners invested time and money in displaying their status in landscape terms, by creating formal and informal (depending on the current fashion) ornamental landscapes, with which they could impress friends and visitors. Many of these layouts, which include walled kitchen gardens with glasshouses, parterres and parklands, are still extant, as for example at Chirk Castle.

